Adroddiad Cyfarfod 11:02:15

John Grisdale
Tîm Achub Mynydd Llanberis

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Mair Price, ein Llywydd a Beti Owen fu'n cyfeilio i Gan y Mudiad.

Gan ein bod yn dathlu Gwyl Ddewi a phen blwydd y gangen yn ddeugain oed y mis nesaf, anogwyd pawb i anfon eu dewis o luniaeth ynghyd a'r arian i Rita neu Mair Williams, cyn y laf Fawrth. Gwenan Gibbard fydd ein gwestai, ac fe noddir y noson gan Noson Fach Allan.

Cydymdeimlwyd gyda Mair Read a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam yng nghyfraith, a llongyfarchwyd Edwina ar ddod yn nain i Math, mab bach i Owain a Delyth.

Os oes unrhyw aelod yn cael trafferthion gyda gwasanaeth Cymraeg yn y banciau yna cysyllter a Mair Price, ysgrifennydd y Rhanbarth. Pleser oedd gan Mair Read, yr is lywydd longyfarch y Dr. Angharad Price, merch Mair ar ei phenodiad yn Athro ym Mhrifysgol Bangor. Mae dy ffrindiau i gyd ym Methel mor falch ohonot.

Ein gwr gwadd oedd Mr John Grisdale, a oedd yn wybyddus i lawer fel cyn-brifathro Ysgol Brynrefail. Testun ei sgwrs oedd Tîm Achub Mynydd, Llanberis, y tim gwirfoddol prysuraf ym Mhryfain - un y mae Mr Grisdale yn aelod ohono. Trwy gyfrwng sleidiau cawsom flasu llawer o'r profiadau sydd yn wynebu'r criw ar amseroedd anodd. Pwysleisiodd, ymysg llawer o gynghorion eraill, pa mor bwysig yw'r paratoi, gwisgo'n addas gyda'r offer priodol cyn cychwyn i fynydda.

Yn dilyn hyn cawsom wledd o luniau wedi eu tynnu o amgylch y fro. Talwyd diolchiadau gan Anita a dymunodd yn dda i'r tîm i gyd. Diolch i ferched y te, sef Efa a Gwyneth Jones, (Waen Wen) a Lis Watkin. Falmai enillodd y raffl.

COFIWCH I GYD FELLY AM Y DATHLU YN Y NEUADD GOFFA, NOS FERCHER, 11eg O FAWRTH. CROESO CYNNES I GYN AELODAU YMUNO A NI - DIM OND CYSTYLLTU AM FANYLION GAN RITA CYN Y 1AF O FAWRTH.